

## Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Morol Cymru (WMFAG)

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 25 Mehefin 2019, Ystafell Trawscoed, Swydd Llywodraeth Cymru, Rhodfa Padarn - 10am tan 4pm

### YN BRESENNOL

Nick O'Sullivan, Cadeirydd, Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Morol Cymru  
Jim Evans, Cymdeithas Pysgotwyr Cymru  
Sion Williams, Cymdeithas Pysgotwyr Cregyn Llŷn  
John O'Connor, Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru  
Holly Whiteley, Seafish Wales  
Sean Evans, Cyfoeth Naturiol Cymru  
Kevin Denman, Cymunedau Pysgota De-orllewin Cymru  
Dean Parry, Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion  
Brett Garner, Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn  
Mark Roberts, Cydweithrediaeth Pysgotwyr Gogledd Cymru  
Yr Athro Lewis Levay, Cymdeithas Rheoli Gorchymyn Pysgodfa Afon Menai (MSFOMA)  
Gareth Bevington, Dirprwy Gyfarwyddwr, Pysgodfeydd Morol a Rhyngwladol, Llywodraeth Cymru  
Julian Bray, Prif Swyddog, Gweithrediadau Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru  
Colin Charman, Uwch-gynghorydd Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru  
Michelle Billing, Rheolwr Polisi Pysgodfeydd, Llywodraeth Cymru  
Mike Jones, Rheolwr Polisi Pysgodfeydd y Môr, Llywodraeth Cymru  
Elen King, Arweinydd Llif Gwaith - Pontio'r UE - y Môr a Physgodfeydd, Llywodraeth Cymru  
Jane Jones, Ysgrifenyddiaeth, Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru, Llywodraeth Cymru

#### 1 Croeso ac Ymddiheuriadau:

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyflwyniad a gwnaed y cyflwyniadau.

Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth:

Gill Bell, Cyswllt Amgylchedd Cymru/RSPB, Trevor Jones, MSFOMA a Bethan Jones, Llywodraeth Cymru

Diolchwyd i Margaret Rees am ei holl waith caled wrth ddarparu Ysgrifenyddiaeth i WMFAG a dymunwyd yn dda iddi ar gyfer ei hymddeoliad.

Cam gweithredu 1 - Ysgrifennu llythyr ar ran WMFAG i Margaret yn diolch iddi am ei gwaith ac i ddymuno'n dda iddi.

#### 2 Cyflwyniad:

Estynnodd Julian Bray groeso cynnes i'r rheini a oedd yn bresennol am y tro cyntaf. Ymddiheurwyd am orfod gohirio'r cyfarfod ym mis Mai. Fodd bynnag, nododd y bydd cael yr ychydig o amser ychwanegol wedi golygu bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers y cyfarfod diwethaf. Cyfeiriodd Julian at y cyfarfod blaenorol ac esboniodd fod digon o amser wedi'i glustnodi ar ddechrau'r cyfarfod hwn i bawb fynegi eu barn ar rolau a phwrpas WMFAG o hyn ymlaen ac i bwysleisio unrhyw flaenoriaethau y teimlai'r aelodau y dylid mynd i'r afael â nhw.

Cyflwynodd Gareth Bevington ei hun ac esboniodd ei rôl yn Llywodraeth Cymru fel Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Môr a Physgodfeydd. Aeth yn ei flaen i gyhoeddi newidiadau diweddar i staff, gan gynnwys symudiadau Graham Rees ac Alison Kitchener. O ganlyniad i hynny, Gareth yn unig sy'n gyfrifol am yr Is-adran ond ychwanegodd fod y Llywodraeth yn bwriadu darparu Dirprwy Gyfarwyddwr arall maes o law i helpu gyda'r gwaith. Nododd ei fod yn awyddus i symud gwaith yr Is-adran ymlaen a mynegodd ei ymrwymiad cadarn i'r aelodau y byddai'n mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sydd ganddynt. Ei flaenoriaethau cyntaf yw ailedrych ar y strwythur o fewn yr Is-adran ac ymchwilio i flaenoriaethau sydd angen mynd i'r afael â nhw a'u rhoi ar waith, gan gynnwys sicrhau y bydd tîm penodedig yn ei le i fwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth angenrheidiol. Mae'n edrych ar hyn o bryd ar sut y gellir ei adnodu. Mae Gareth yn cydnabod bod angen cynllun hirdymor ac mae'n gweithio tuag at ddarparu hynny. Mynegodd y byddai'n dymuno clywed gan aelodau'r grŵp am eu profiadau a'u barn am flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Cyflwynwyd yr awgrymiadau a'r pwyntiau a ganlyn gan y rheini a oedd yn bresennol:

- Diolchwyd i Gareth am wneud ymdrech i fynychu'r cyfarfod a theimlwyd bod ei sylwadau yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu dymuniad i weithio gyda'r grŵp wrth symud ymlaen. Teimlwyd bod modd ailadeiladu'r ymddiriedaeth a oedd o bosibl wedi'i cholli rhwng y grŵp a Llywodraeth Cymru.
- Mae angen mecanwaith i reoli a datblygu holl bysgodfeydd Cymru.  
*Ymateb:* Y nod yw sicrhau bod pob deddfwriaeth hirdymor yn ei lle i sicrhau bod hyn yn gallu digwydd. Mae hwn yn ddarn o waith cymhleth ac nid oes un ateb sydyn. Fodd bynnag, bydd yr Is-adran yn gweithio ar ambell ddarn o deddfwriaeth ar gyfer rhywogaethau sengl yn gyntaf i ddechrau'r broses.
- Nodwyd mai'r hiraf y bydd y broses hon yn cael ei gadael, y caletaf fydd hi ar y diwydiant pysgota. Nid yw Cymru yn cael ei hadnabod yn wlad sy'n rheoli ei physgodfeydd neu rywogaethau a chaiff hyn ei deimlo ar draws Fflyd Bysgota Cymru. Mae'r sefyllfa hon yn mynd yn fwy difrifol mewn rhai pysgodfeydd ac mae angen deddfwriaeth yn fuan cyn eu bod yn anghynaliadwy.
- Mae gwir angen cynllun hirdymor i sicrhau bod ein pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n effeithiol. Mae angen inni weithio gyda data gwyddonol i sicrhau bod ein pysgodfeydd yn cael eu gwarchod am flynyddoedd i ddod.
- Ar hyn o bryd, mae'r diwydiant pysgota yn gweithio'n anoddach am lai o arian er bod gennym rai o'r cynhyrchion gorau. Er enghraifft, ein cocos

	<p>a'n cregyn moch o'r ansawdd gorau ac mae cryn dipyn o alw amdanynt. Fodd bynnag, mae angen inni reoli hyn a stociau pysgota eraill dros yr hirdymor ac i sicrhau dyfodol i'r pysgotwyr ifanc hynny sy'n newydd i'r diwydiant.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae angen system reoli frys arnom i wella'r stociau presennol.</li> <li>• <i>Ymateb:</i> Rydym yn gwneud ein gorau i gyflawni'r nod hwn - mae'n bosibl drwy benderfynoldeb ac ymdrech ar y cyd.</li> <li>• Mynegwyd bod pawb yn fwy positif wrth weithio tuag at yr un nodau ac y gellid gwella'r ymddiriedaeth rhwng y diwydiant a'r llywodraeth.</li> <li>• Nodwyd bod llawer o anweithgarwch yng Nghymru o gymharu ag IFCA yn y DU. Mae pwyntiau i'w nodi o ran stociau pysgod ee mae digonedd o ddraenogiaid môr sy'n fach o hyd ac mae'r dyfodol yn edrych yn dda. Rhaid defnyddio'r un dull ar gyfer rhywogaethau eraill cyn ei bod yn rhy hwyr.</li> <li>• Mae'n ymddangos bod diffyg cydlyniant rhwng gwyddoniaeth, gorfodi a pholisi. <i>Ymateb:</i> Mae gan yr Is-adran bellach gapasiti gwyddoniaeth mwy o faint ac mae Gareth yn gweithio ar wella adnoddau i gynyddu'r capasiti Polisi. Mae cyfle'n bodoli hefyd i wneud pethau'n wahanol o ran yr adnoddau sydd eisoes gan yr Is-adran.</li> <li>• Mae pysgotwyr wedi colli hyder mewn helpu i greu data gan nad oes unrhyw beth wedi'i wneud gyda'r data hwn dros y blynyddoedd. Mae angen i Lywodraeth Cymru ddechrau cyflawni i ennyn hyder y diwydiant unwaith eto. <i>Ymateb:</i> Mae Llywodraeth Cymru yn dechrau cyflawni - mae'r ymgynghoriad ar Brexit a'n Moroedd yn gyhoeddus, mae gwaith ar cregyn moch yn symud yn ei flaen ac mae potensial am Bil Pysgod Cymru. Mae'n amlwg bod cyfleoedd i symud ymlaen ac mae angen gweledigaeth glir er mwyn rhoi cynllun hirdymor yn ei le.</li> <li>• Mae angen newid y canfyddiad bod pob pysgotwr yn 'wael'. Mae'r rhan fwyaf o bysgotwyr yn poeni am gadwraeth ac yn dymuno cynllunio ar gyfer y tymor hir o ran materion amgylcheddol. Mae ambell bysgotwr yn ddrwg ond cydnabuwyd eu bod yn gallu dinistrio enw da pysgotwyr eraill. Mae angen gwneud ychydig o waith i adfer canfyddiad cadarnhaol y cyhoedd o'r diwydiant pysgota.</li> <li>• Ni ddylai'r gwaith o reoli'r pysgodfeydd ganolbwyntio ar un rhywogaeth benodol. Gallai hynny arwain at gynyddu nifer yr ysglyfaethwyr. Rhaid meddwl yn ofalus wrth geisio gwarchod ecosystemau.</li> </ul>
3	<p><b>I) Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Chwefror</b>  Diwygio: Tudalen 5, Rhif 7, Asesu Pysgotwyr Cymru - <b>newid i: Asesu Pysgodfeydd Cymru</b></p> <p><b>CYMERADWYWYD</b></p> <p><b>II) Cynnydd ar Gamau Gweithredu ers y cyfarfod blaenorol</b>  Camau gweithredu 2 a 3 - Tyllau dianc mewn potiau. Diolch i Holly a Sean am eu hymatebion. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ffordd ymlaen bosibl ar y mater hwn ac mae'n gobeithio ei drafod yn y cyfarfod nesaf.</p> <p>Cam Gweithredu 4 - Cynllun costau wedi'i symleiddio; adroddodd Jim yn ôl i'r Grŵp fod y cynllun wedi'i adolygu'n gadarnhaol a bod y system yn hawdd i'w defnyddio. Mae ar y cyfryngau cymdeithasol bellach.</p>

	<p>Cam gweithredu 5 - Adrodd ar dor rheolau a deallusrwydd o ran pysgodfeydd; mae Barrie yn datblygu system newydd fel rhan o Ganolfan Monitro Pysgodfeydd Cymru.</p> <p>Cam gweithredu 6 - E-bost yn amlinellu prif bryderon y grŵp; Cytunodd y Grŵp bod yr e-bost yn adlewyrchu'r pryderon yn deg. Codwyd y pwyntiau yn ystod y trafodaethau ar ddechrau'r cyfarfod.</p>
<p><b>4</b></p>	<p><b>Cylch Gorchwyl:</b></p> <p>Aeth y Cadeirydd ati i esbonio pan luniwyd y Cylch Gorchwyl a'r Rheolau Sefydlog, roeddent yn ddwy ddogfen ar wahân. Mae gan y Grŵp bellach un Gylch Gorchwyl.</p> <p>Cam Gweithredu 2 - Bydd y Cadeirydd yn gwirio'r Cylch Gorchwyl yn unol â'r rheolau sefydlog i weld a oedd rhywbeth wedi'i gollu pan gawsant eu cyfuno.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd a oedd yr aelodau yn hapus gyda'r ffordd y mae WMFAG yn gweithredu ar hyn o bryd. Cytunodd y rheini a oedd yn bresennol eu bod yn hapus gyda'r sefyllfa bresennol.</p> <p>Cam Gweithredu 3 - Unrhyw sylwadau eraill i'w cyflwyno i Nick o fewn y pythefnos nesaf.</p> <p>Awgrymwyd y dylai'r Cadeirydd a'r swyddogion frifio'r Gweinidog gyda'i gilydd ar gynnydd. Nid yw hyn yn bosibl. Gall WMFAG fel grŵp cynghori roi cyngor i'r Gweinidog ond mae'n bosibl y bydd angen i weision sifil ddarparu cyngor ychwanegol i'r Gweinidog fel rhan o'u rôl. Gall y cyngor fod o blaid neu yn erbyn cyngor WMFAG neu gytuno neu anghytuno ag ef.</p> <p>Nodwyd mai'r Gweinidog benododd y Cadeirydd. Felly, dylid gwahaniaethu rhwng cyngor arbenigol a chyngor a roddir gan weision sifil.</p> <p>Cam Gweithredu 4 - Gareth i ystyried cryfhau paragraff rhif 7 ar wneud penderfyniadau.</p> <p>Gofynnwyd a yw'r Grŵp Cynghori ar Ddyframaethu yn dal i weithredu.</p> <p>Cam Gweithredu 5 - Darganfod statws y Grŵp Cynghori ar Ddyframaethu.</p> <p>Cam Gweithredu 6 - Ystyried a fyddai creu Grŵp Cynghori ar Bysgodfeydd Rhynglanwol yn fuddiol.</p> <p>O ran aelodaeth - Nodwyd nad yw Cymdeithas Cynhyrchwyr Dyframaethu Cymru yn bodoli bellach.</p>
<p><b>5</b></p>	<p><b>Ymgynghoriad - Brexit a'n Moroedd:</b></p> <p>Cyhoeddodd Elen King fod yr ymgynghoriad wedi'i lansio ar 1 Mai ac eglurodd y ddogfen a gyflwynwyd i'r cyfarfod.</p> <p>Gwnaed y pwyntiau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yn anffodus, cynlluniwyd bod y cyfarfodydd ymgynghori i'w cynnal yn ystod cyfnod prysuraf y tymor pysgota ac os na fydd y tywydd yn arbennig o wael, bydd llawer o bysgotwyr allan ar y môr. Fodd bynnag, cytunodd pawb a oedd yn bresennol i frifio eu haelodau i geisio sicrhau presenoldeb.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynigiwyd bod llawer o bysgotwyr bellach wedi 'ymddieithrio' o'r broses ymgynghori ac efallai nad ydynt yn gwybod bod yr ymgynghoriad yn fyw. Un awgrym oedd llunio posterï a'u hanfon at brynwyr i'w rhoi mewn man amlwg.</li> <li>• Awgrymwyd nad oedd nifer mawr o bysgotwyr yn gallu gweithredu systemau electronig a meddylwyd bod angen posterï i gyrraedd y rheini a fyddai am ymateb mewn ffordd wahanol.</li> </ul>
<p><b>6</b></p>	<p><b>Gweithrediadau Pysgodfeydd:</b></p> <p>Esboniodd Julian adroddiad y Gangen Gweithrediadau - dyma'r pwyntiau a godwyd yn ystod y trafodaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gorfodi yn flaenoriaeth wythnosol ac mae'r cyfarfodydd gosod tasgau yn cael eu llywio gan adroddiadau deallusrwydd.</li> <li>• Mynegwyd pryderon ynghylch diffyg gorfodaeth ac nad yw pysgotwyr yn gweld budd y symiau mawr o arian sy'n cael eu gwario ar gychod newydd Llywodraeth Cymru. Mae llawer iawn o bysgota anghyfreithlon yn digwydd ond nid yw'n ymddangos fel petai camau gorfodi clir yn cael eu cymryd. Mae angen patrolau rheolaidd yn ystod y dydd a'r nos. <i>Ymateb:</i> Mae staff newydd wedi'u penodi sydd ar hyn o bryd yn cael eu hyfforddi. Dylid cydnabod nad yw'r cydbwysedd yn gywir eto gan Lywodraeth Cymru a bod angen gwella'r ffordd y gweithredir ar ddeallusrwydd. Cydnabuwyd y gall fod achos busnes ar gyfer mwy o staff.</li> <li>• Awgrymwyd bod angen cyflwyno mwy o gamau gorfodi mewn porthladdoedd a gwirio cychod wrth iddynt ddod i mewn i borthladd yn ogystal ag ar y môr. Mae angen hyn yn arbennig o ran pysgodfeydd a genweiryd hamdden.</li> <li>• Mae angen mynd i'r afael â physgota anghyfreithlon ar unwaith.</li> </ul>
<p><b>7</b></p>	<p><b>Crynodeb o gynnydd ar ffrydiau gwaith allweddol:</b></p> <p>Cyflwynodd Julian - gwnaed y pwyntiau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Blaenoriaeth 2 adrodd ar ddalfeydd dan 10m - mae angen ystyried ambell beth megis trosglwyddo o Brynwyr a Gwerthwyr. Mae'n rhy gymhleth o ran gwerthu pysgod ar raddfa fach i brynwyr lleol. A ellid cysylltu hen systemau a rhai newydd? <b>Cam gweithredu 7 - Julian i drosglwyddo'r awgrym.</b></li> <li>• Blaenoriaeth 3 System fonitro cychod y glannau - Mynegwyd pryder ynghylch pam y dylai pysgotwyr dalu am y system hon. Roedd y pryderon a godwyd yn cyfeirio at y ffaith bod y system yn debyg i 'dagio'. Fodd bynnag, ar yr ochr gadarnhaol, nodwyd y byddai'n offeryn defnyddiol wrth reoli pysgodfeydd yn y dyfodol.</li> <li>• <b>Cregyn moch</b> - Cyhoeddodd Michelle y bydd y mesurau cyntaf, sef cynyddu isafswm maint cadwraeth cregyn moch o 45mm i 55mm yn weithredol ar 4 Gorffennaf. Mae'r OS wedi'i osod ac mae Datganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ar ddod. Bydd llythyr yn cael ei anfon at bob pysgotwr trwyddedig. Mynegodd yr aelodau eu diolch i Colin a Michelle am eu holl waith caled i gyrraedd y cam hwn.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cregyn bylchog</b> - Rhoddodd Colin drosolwg o ran datblygu'r mesurau newydd. Mae'r mecanwaith rheoli hyblyg sydd ar waith yn hynod o gymhleth ond bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi eglurder i'r diwydiant cyn gynted ag y gallant. Pwysleisiodd Gareth wrth yr aelodau fod llawer o waith caled wedi'i wneud ar y flaenoriaeth hon a byddai'n pwysu i gael datrysiaid yn ffordd gyflymaf bosibl. Diolchodd yr aelodau Colin am ei ddiweddariad ac roeddent yn gwerthfawrogi'r gwaith sydd wedi'i wneud.</li> <li>• <b>Cosbau Gweinyddol Penodedig</b> - Dywedodd Michelle fod Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2019 a Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) (Diwygio) 2019 wedi dod i rym ar 22 Mawrth 2019. Roedd pob aelod wedi cydnabod yr ymdrech anhygoel fel tîm a wnaed i gyflawni hyn ac y dylai hyn gael ei gyflwyno fel Stori Newyddion Dda. Nododd Michelle hefyd ei bod yn cwblhau'r canllawiau i fynd gyda'r Gorchymynion.</li> <li>• <b>Asesu Pysgodfeydd Cymru</b> - Cyflwynodd Colin adroddiad ar hyn gan nodi y byddai ymgynghoriad. Soniodd hefyd am gyfres o ymweliadau â physgotwyr sy'n defnyddio offer pysgota symudol. Gofynnodd pe na bai aelodau yn gallu mynd i unrhyw rai o'r cyfarfodydd, a fyddai modd anfon ymholiadau ato drwy e-bost.</li> <li>• <b>Cynllun Rheoli Cocos</b> - Nododd Julian fod ei waith wedi'i oedi am y tro oherwydd bod y Rheolwr Prosiect, Mark Tilling, yn cyflawni swydd Barrie John a oedd yn ymdrin â gwaith Brexit. Pwysleisiodd fod hyn yn ddarn pwysig o waith a'i fod yn cynnwys proses gymhwystra a fyddai hefyd yn effeithio ar ddulliau gorfodi eraill o ran pysgodfeydd.</li> <li>• <b>Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop</b> - Cydnabuwyd y bu gwelliant yn hynny o beth a bod rhai ymatebion cadarnhaol wedi dod i law. Fodd bynnag, nodwyd hefyd nad oedd weithdrefn papur ar gyfer y rheini yn y diwydiant a oedd yn dal i gael trafferth defnyddio technoleg electronig.</li> </ul>
8	<p><b>Polisi Rhyngwladol</b></p> <p>Cytunwyd bod hyn yn grynodedb da o'r sefyllfa ac yn stori newyddion da. Gwaith ar esemptiadau - ar gyfer y cyfarfod nesaf.</p>
9	<p><b>Unrhyw fater arall:</b></p> <p><b>Newid Hinsawdd etc</b> - Nododd y Cadeirydd mai'r ddwy dudalen sy'n berthnasol i bysgodfeydd oedd tudalennau 20 a 21. Cydnabuwyd gan y grŵp bod y sbwriel yn cyfeirio at y diwydiant pysgota hamdden ac y byddai physgotwyr masnachol yn fwy cyfrifol o ran colli eu hoffer gan y byddai hynny yn arwain at golli arian. Nodwyd hefyd fod angen darparu sgiopiau mewn porthladdoedd er mwyn gallu cael gwared ar yr holl sbwriel yr oeddent yn ei gasglu ac a oedd yn dod i'r lan mewn ymgais i gadw'r moroedd yn lân.</p> <p>Nododd Sean fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi penodi aelod o staff yn ddiweddar i edrych ar Sbwriel Môr.</p> <p>Nodwyd hefyd fod Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru wedi llunio taflenni addysgol a oedd wedi helpu i leihau sbwriel genweirio hamdden o amgylch Sgomer ac Ystangbwl.</p> <p>Dull Parth Cadwraeth Morol Cymru - Esboniodd Julian ei fod wedi ychwanegu'r eitem hon at yr agenda i hoelio sylw ar y gwaith sy'n cael ei</p>

	<p>wneud yng Nghymru ar Barthau Cadwraeth Morol a sut y mae'r gwaith hwnnw yn wahanol i adolygiad Michael Gove yn Lloegr.</p> <p><b>Cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Sectorau Morol y DU</b> - Dosbarthwyd manylion cyswllt i bob aelod - a allai'r rheini sydd â diddordeb gysylltu â Richard Weaver. Mae'n rhedeg y prosiect hwn ar ran y DU a byddai'n dda pe bawn yn gallu adlewyrchu safbwynt Cymru.</p>
	<p><b>Yna daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.</b></p>